ColegauCymru
CollegesWales

Yn codi proffil addysg bellach
Raising the profile of further education

newyddion Cymraeg ColegauCymru #2053
30 Tachwedd Hydref 2015

Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi Cysylltwch.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.

Do please let us know if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

Datblygiadau Strategol

Penderfyniadau Dewr eu Hangen i Gyflawni Sgiliau ar gyfer Cenedl Lewyrchus: maniffesto colegau ar gyfer etholiadau'r Cynulliad

Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru i wneud penderfyniadau dewr er mwyn darparu addysg a sgiliau o'r radd flaenaf ar gyfer Cymru lewyrchus. Felly dyweud ColegauCymru mewn maniffesto ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2016.
Mwy>>>

Cymru: bellach heb fod yn wlad sy'n dysgu

Wrth ymateb i gyhoeddiad ystadegau swyddogol sy'n dangos gostyngiad sylweddol yn nifer yr oedolion sy'n dysgu, dywedodd y corff sy'n cynrychioli colegau bod y dirywiad mor fawr y gallai Cymru ddim hawlio mai 'gwlad sy'n dysgu' ydyw bellach.
Mwy>>>

Profiad coginio unigryw wrth i 'Y Dosbarth' agor yng Nghalon Dinas Caerdydd

Mae bwyty newydd sbon wedi agor ei ddrysau i'r cyhoedd.
Mae Y Dosbarth wedi'i leoli ar 5ed llawr campws canol dinas newydd sbon gwerth £45m Coleg Caerdydd a'r Fro.
Mae Y Dosbarth yn ganolfan hyfforddi yn gweld gweithwyr gorau'r diwydiant, sydd â chyfoeth o brofiad o sefydliadau sêr Michelin a Rhubanau AA o bob cwr o'r DU, yn rhedeg y bwyty o ddydd i ddydd.
Mwy>>>

Colegau o Ansawdd

Dathlu llwyddiant ym maes Ynni Adnewyddadwy

Cyflwynwyd gwobr 'Cyfraniad at Sgiliau a Hyfforddiant' i gynrychiolwyr o Grŵp Llandrillo Menai yng ngwobrau Ynni Gwyrdd Cymru a gynhaliwyd yng Ngwesty Dewi Sant, Caerdydd.
Mwy>>>

Coleg Caerdydd a'r Fro yn Arweinydd mewn Amrywiaeth

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi derbyn statws anrhydeddus Arweinydd mewn Amrywiaeth am ei ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynnwys.
Mwy>>>

Gwobrau cynaliadwyedd

Yng Ngwobrau Cynaliadwyedd y Sector Cyhoeddus y DU gyfan, derbyniodd Coleg Gwent Wobr Cymeradwyaeth Uchel yn y categori Prosiect Ailgylchu Gwastraff Gorau yr wythnos diwethaf.
Cafodd y coleg yn ogystal dystysgrif Cymeradwyaeth Uchel ar gyfer gwaith rhagorol yng ngwobrau cyntaf Cynnal Cymru - Sustain Wales.
Mwy>>>

Cadeirydd Coleg Gwent yn aelod ymgynghorol ar Ganolfan y DU

Mae Cadeirydd Llywodraethwyr Coleg Gwent, Angela Lloyd, wedi derbyn gwahoddiad i ddod yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol o ganolfan newydd addysg Ôl-14 a gwaith yr Athrofa Addysg sy'n rhan o Goleg Prifysgol Llundain.
Mwy>>>

Llongyfarchiadau! Llwyddiant Myfyrwyr

Llwyddiant i Gymru yn rownd derfynol WorldSkills y DU

Mae deg person ifanc – gan gynnwys brawd a chwaer o Lanelli – wedi cael eu henwi gyda goreuon y DU yn rownd derfynol o gystadleuaeth sgiliau Prydain gyfan. Mwy>>>

Coleg Gorau Cymru ar gyfer aelodau Carfan y Deyrnas Unedig: Yn dilyn llwyddiant aruthrol yn y Sioe Sgiliau yn Birmingham, dyfarnwyd y safle uchaf i **Coleg Sir Gâr** yn rhestr colegau Cymru a'r ail safle yn rhestr colegau'r Deyrnas Unedig, o ganlyniad i'r ffaith bod chwe dysgwr wedi ennill lle yng ngharfan y DU sy'n paratoi ar gyfer cystadlaethau WorldSkills Abu Dhabi 2017. Mwy gan Goleg Sir Gâr >>>

Un o ddysgwyr Cymru y'i dewiswyd ar gyfer carfan WorldSkills y DU yw Gethin Jones, myfyriwr adeiladwaith o **Grŵp Llandrillo Menai**. Mwy gan Grwp Llandrillo Menai >>>

Llwyddiant Chwaraeon Colegau Cymru

Bu cystadlaethau aml-chwaraeon cenedlaethol Cymru i fyfyrwyr colegau ar 10-11 Tachwedd yn wledd o sgiliau chwaraeon, gydag enillwyr o 10 coleg yn dangos bod dawn a photensial am chwaraeon i'w canfod ym mhob cwr o Gymru. Mwy>>>

Ar ddiwedd y Pencampwriaethau, cafodd **Coleg Gwyr Abertawe** ei enwi'n Bencampwyr Colegau Cymru mewn pêl-rwyd, hoci merched, pêl-droed dynion a thennis dynion, ac roedd un myfyriwr wedi cael ei ddewis i chwarae i dîm golff dynion Cymru hefyd. Mwy gan Goleg Gwyr Abertawe

---

Cyhoeddi enwau chwaraewyr sgwad merched Cymru

Enwyd dwy o ddysgwyr Academi Pêl-droed Merched Elit Coleg y Cymoedd, Chloe Chivers a Shaunna Jenkins, yn Nhîm Cenedlaethol Merched Cymru gan y Rheolwraig, Jayne Ludlow, ar gyfer y gêm yn erbyn Kazakhstan yn Hwlffordd.
Mwy>>>

Rheolwyr o fri: dyfarnu gwobrau CMI i fyfyrwyr coleg

Mae dau fyfyriwr o GCS Training - braich hyfforddi busnes Coleg Gŵyr Abertawe - wedi ennill y gwobrau uchaf yn y digwyddiad o fri Gwobrau Rhagoriaeth y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI) yng Nghaerdydd.
Mwy>>>

Cydnabod sgiliau peirianneg gyda Gwobr Sefydliad y Peirianwyr Amaethyddol

Mae Sefydliad y Peirianwyr Amaethyddol wedi dyfarnu gwobr i Cennydd Hughes o Langennech am ei brosiect peirianneg a gyflawnwyd ganddo ar gampws y Gelli Aur Coleg Sir Gâr.
Mwy>>>

Seremoni Wobrwyo a Phremiere ffilmiau 'It's My Shout'

Gwnaeth myfyriwr Celfyddydau Perfformio o Grŵp Llandrillo Menai, Chloe Casey, ei marc yn y seremoni wobrwyo ffilmiau It's My Shout yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd yn ddiweddar, drwy ennill y wobr am "Actores Gefnogol Orau".
Mwy>>>

Cystadleuaeth Springboard FutureChef yn cynhesu

Bu pobl ifanc talentog yn coginio yr wythnos ddiwethaf yng nghystadleuaeth ranbarthol y gystadleuaeth Springboard FutureChef ar Gampws Crosskeys Coleg Gwent.
Mae'r gystadleuaeth yn agored i bobl ifanc rhwng 12 ac 16 oed ledled y DU ac, o tua 8,000 o ymgeiswyr, mae enillwyr

y rowndaiu terfynol rhanbarthol yn mynd ymlaen i gystadlu yn Llundain ym mis Mawrth.
Mwy>>>

Cyfleoedd Dysgu

Datblygu cwrs Gofal Plant cyfrwng Cymraeg

Gall pobl sydd â diddordeb mewn gyrfa mewn gofal plant ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae arnynt eu hangen drwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro yn awr.
Mwy>>>

Myfyrwyr yn gweithio fel Swyddogion Anffurfiol ym Mhencampwriaeth Ralïo'r Byd

Gadawyd pedwar ar ddeg o fyfyrwyr Cerbyd Modur a Hyfforddeiaeth Grŵp Llandrillo Menai o gampws y coleg y Rhyl "wedi ymlâdd, ac eto wrth eu bodd" wedi cael eu dewis i wirfoddoli ar gyfer cynllun "Hyrwyddwyr Rali" arloesol Rali Cymru GB y penwythnos diwethaf.
Mwy>>>

Trysor ddiwedd y canol oesoedd wedi ei ddarganfod gan fyfyriwr ar dir y coleg

Mae arian o ddiwedd y canol oesoedd gyda'r arysgrif 'gafael cleddyf' a ddarganfyddwyd gan fyfyriwr Coleg Gwent ar dir y coleg wedi cael ei ddatgan yn drysor gan EM Crwner ar gyfer Gwent.
Mwy>>>

Cawr o'r byd actio, Jonathan Pryce, yn ymweld â CCAF i siarad am ei siwrnai o Dreffynnon i Hollywood

Daeth y Cymro sy'n un o gewri'r byd actio, Jonathan Pryce, ar ymweliad â Choleg Caerdydd a'r Fro yn ddiweddar, i sgwrsio gyda'r myfyrwyr Celfyddydau Perfformio am ei siwrnai o Dreffynnon i Hollywood.
Mwy>>>

Tŷ Cudd yn agor yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro

Mae'r myfyrwyr ar y cyrsiau Paratoi ar gyfer Gwaith a Sgiliau Bywyd yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro wedi trefnu parti agoriadol arbennig ar gyfer eu gofod dysgu ar ei newydd wedd, sydd wedi cael yr enw 'Tŷ Cudd', neu 'The Secret House', ganddynt.
Mwy>>>

Peiriannu cipolwg ar ddiwydiant ar gyfer myfyrwyr

O danceri Tandem i beiriannau bwydo tomahawk, cafodd myfyrwyr peirianneg amaethyddol ar gampws y Gelli Aur yng Ngholeg Sir Gâr gipolwg ar y diwydiant gyda help cwmni gwerthwyr tractorau Gwili Jones.
Mwy>>>

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB